Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Rhaglen Gadarnhau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso - atebion i'ch cwestiynau

Cwestiynau cyffredin am y Rhaglen Gadarnhau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso

Cyhoeddwyd gyntaf: 14 Mehefin 2023

Diweddariad olaf: 14 Mehefin 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/consolidation-programme-for-newly-qualified-social-workers-your-questions-answered am y fersiwn diweddaraf.

Cwestiynau cyffredin am y Rhaglen Gadarnhau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso.

## Beth yw'r Rhaglen Gadarnhau?

Dangos

Mae'n rhaid i weithwyr cymdeithasol sydd wedi cymhwyso yng Nghymru ar neu ar ôl 1 Ebrill 2016 ac sy'n parhau i ymarfer yng Nghymru gwblhau'r Rhaglen Gadarnhau o fewn y tair blynedd gyntaf o'u cyfnod cofrestru. Mae'n rhaid i'r rhaglen fod yn un rydyn ni wadi ei gymeradwyo.

Mae'r Rhaglen Gadarnhau yn rhan o'r fframwaith Tair Blynedd Gyntaf o Ymarfer sy'n ceisio cefnogi gweithwyr cymdeithasol wrth iddyn nhw bontio o fod yn raddedigion i fod yn ymarferwyr cymwys.

Mae'r Rhaglen Gadarnhau yn galluogi i weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso gydgrynhoi a datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn tri maes craidd o ran ymarfer gwaith cymdeithasol, sef:

- dadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau
- cydweithio â phobl sy'n cael gofal a chymorth, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill
- ymyriad a chymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth.

## Pam mae'r Rhaglen Gadarnhau yn bwysig?

Dangos

Mae dysgu ac addysg proffesiynol parhaus yn gyfrifoldeb proffesiynol ar weithwyr cymdeithasol. Mae'r Rhaglen Gadarnhau yn sefydlu diwylliant a disgwyliadau ar gyfer dysgu a datblygu gydol gyrfa yn y proffesiwn gwaith cymdeithasol.

Mae’n bwysig fod gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yn sefydlu datblygiad parhaus ar ddechrau eu gyrfa wrth iddyn nhw bontio o fod yn fyfyrwyr i fod yn weithwyr proffesiynol cymwys. Bydd hyn yn cynnwys gwneud eu sgiliau a’u gwybodaeth broffesiynol yn rhan annatod o ymarfer ac ymgymryd â mwy a mwy o waith cymhleth mewn meysydd arbenigol. Mae’r Rhaglen Gadarnhau yn cefnogi dysgu a datblygu yn ystod y cam hollbwysig hwn.

## Ar gyfer pwy mae’r Rhaglen Gadarnhau?

Dangos

Mae’r Rhaglen Gadarnhau wedi’i hanelu at weithwyr cymdeithasol cofrestredig sydd newydd gymhwyso a dylai gael ei chynnal yn ystod eu tair blynedd gyntaf o gofrestru tra eu bod yn ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol. Mae’r rolau hyn yn cynnwys cyflawni tasgau gwaith cymdeithasol sy’n tynnu ar y wybodaeth a’r sgiliau sydd wedi’u cynnwys yn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol.

Mae’r Rhaglen Gadarnhau yn addas ar gyfer rhywun sydd newydd gymhwyso fel gweithiwr cymdeithasol ac sy’n gweithio mewn rôl lle maen nhw’n cyflawni tasgau gwaith cymdeithasol. Dim ond pan fyddant yn dechrau swydd gwaith cymdeithasol y dylai gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso ddechrau'r rhaglen.

Gall y Rhaglen Gadarnhau, neu rannau ohoni, hefyd fod yn berthnasol i weithwyr cymdeithasol eraill, megis y rhai sy'n dychwelyd i ymarfer ar ôl seibiant neu'r rhai sy'n gweithio yn y DU am y tro cyntaf. Ond, byddai angen i hyn fod yn seiliedig ar asesiad o anghenion dysgu’r person a byddai angen cytundeb ei gyflogwr a darparwr dysgu perthnasol.

## Beth am weithwyr cymdeithasol sy'n cymhwyso mewn gwledydd eraill yn y DU?

Dangos

Rydym yn cydnabod cyflawniadau ôl-gymhwyso cyfatebol a chymaradwy yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon at ddibenion adnewyddu cofrestriad. Ond, efallai y bydd cyflogwyr a gweithwyr cymdeithasol yn penderfynu bod angen gwneud rhannau o’r Rhaglen Gadarnhau, neu’r cyfan ohoni, i ddiwallu anghenion dysgu gweithwyr cymdeithasol a gymhwysodd yn un o wledydd eraill y DU.

Efallai y bydd angen i weithwyr cymdeithasol hefyd ddysgu mwy am iaith, deddfwriaeth a pholisïau yng Nghymru.

## Pryd fydd disgwyl i weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso ymgymryd â’r Rhaglen Gadarnhau?

Dangos

Fel arfer, bydd y Rhaglen Gadarnhau yn cael ei chwblhau yn ystod ail neu drydedd flwyddyn yr ymarfer gwaith cymdeithasol, cyn i’r gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso adnewyddu eu cofrestriad. Bydd hyn yn ategu eu datblygiad yn y flwyddyn gyntaf ac yn adeiladu ar hynny.

Dim ond pan fydd eu rheolwr neu gyflogwr yn hapus eu bod wedi cwblhau eu blwyddyn gyntaf o ymarfer a/neu sefydlu yn llwyddiannus a’u bod yn barod i symud ymlaen i’r Rhaglen Gadarnhau y gall gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso gofrestru ar y rhaglen.

## Ble fydd y Rhaglen Gadarnhau yn cael ei chynnal?

Dangos

Mae cyflogwyr gwaith cymdeithasol wedi gweithio gyda phrifysgolion i ddatblygu dwy raglen gadarnhau rydyn ni wedi cymeradwyo, sef:

- Porth Agored, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant
- Rhaglen Gadarnhau Consortiwm y De, a ddarperir gan Brifysgol De Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Bydd y brifysgol lle mae'r gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yn ymgymryd â'r rhaglen yn amrywio yn unol â'r trefniadau a wneir gan eu cyflogwyr.

Bydd rhan helaeth o'r rhaglen yn cael ei chwblhau yn y gweithle. Asesir y rhaglen gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth seiliedig ar waith, gan gynnwys arsylwi ymarfer yn uniongyrchol.

## Beth sy'n digwydd pan fydd gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso yn cwblhau'r Rhaglen Gadarnhau?

Dangos

Bydd y gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso yn ennill credydau ar Lefel 6 Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru.

Mae'r credydau hyn yn cyfrannu at ofynion datblygiad proffesiynol parhaus ôl-gofrestru gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso.

Ar ôl ei gwblhau, gall y gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso adnewyddu eu cofrestriad.

## Beth sy'n digwydd os na fydd gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yn llwyddo i gwblhau'r Rhaglen Gadarnhau erbyn yr amser mae angen iddyn nhw

## adnewyddu eu cofrestriad?

Dangos

Gall gweithwyr cymdeithasol sy’n cymhwyso ar ôl 1 Ebrill 2016 adnewyddu eu cofrestriad ar ôl tair blynedd dim ond os ydyn nhw wedi cwblhau’r Rhaglen Gadarnhau’n llwyddiannus.

Os nad yw gweithiwr cymdeithasol wedi cwblhau’r rhaglen yn llwyddiannus erbyn yr amser y mae angen iddo adnewyddu ei gofrestriad, byddwn yn ystyried tystiolaeth o amgylchiadau esgusodol. Os bydd y Cofrestrydd yn cytuno, gallwn ymestyn y cyfnod cofrestru.

## Sut mae ansawdd y Rhaglen Gadarnhau yn cael ei fonitro?

Dangos

Rydyn ni’n cymeradwyo pob Rhaglen Gadarnhau ac mae’n rhaid i’r rhaglenni fodloni gofynion cenedlaethol. Byddwn ni’n parhau i fonitro ac adolygu’r rhaglenni ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fodloni’r gofynion hyn.

Mae’r fframwaith Dysgu ac Addysg Proff esiynol Parhaus yn cael ei werthuso’n annibynnol er mwyn gwneud yn siwr ei fod yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf posibl ar weithwyr cymdeithasol, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd ymarfer, dilyniant gyrfa, datblygiad gyrfa a lefelau cadw gweithwyr cymdeithasol. Bydd y gwerthusiad hefyd yn pwyso a mesur i ba raddau mae’r ff ramwaith wedi helpu i wella canlyniadau i bobl sy’n derbyn gofal a chymorth, eu teuluoedd a/neu eu gofalwyr.

## Sut bydd dysgu’n cael ei asesu ar y Rhaglen Gadarnhau?

Dangos

Yn unol â’r gofynion cenedlaethol3, bydd gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso sy’n cwblhau’r Rhaglen Gadarnhau yn cael o leiaf 30 o gredydau ar Lefel 6. Caiff y rhaglen ei hasesu gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth seiliedig ar waith, gan gynnwys arsylwi ymarfer yn uniongyrchol.

## Beth os nad yw gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso yn cael ei gyflogi fel gweithiwr cymdeithasol yn ystod tair blynedd gyntaf ei gofrestriad?

Dangos

Mae’r Rhaglen Gadarnhau yn gymwys yn ystod y cyfnod tair blynedd gyntaf lle mae’r unigolyn cofrestredig yn ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol.

Nid yw’r Rhaglen Gadarnhau yn addas i rywun sydd wedi cymhwyso fel gweithiwr cymdeithasol yn ddiweddar ond sydd ddim mewn rôl lle maen nhw’n cyfl awni tasgau gwaith cymdeithasol. Dim ond pan maen nhw’n cael swydd ym maes gwaith cymdeithasol ddylai gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso ddechrau’r rhaglen.

Yn yr un modd, nid oes angen i weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso gofrestru â ni oni bai eu bod yn cyfl awni rôl y mae angen bod wedi cofrestru ar ei chyfer. Os bydd gweithiwr cymdeithasol yn ansicr ynglyn â’i fynediad at y rhaglen, dylai siarad â’i gyfl ogwr.

Rydyn ni wedi cyflwyno trefniadau penodol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy’n dychwelyd i ymarfer ar ôl bod oddi ar y Gofrestr am fwy na thair blynedd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod eu gwybodaeth ynghylch yr ymarfer gwaith cymdeithasol presennol yn gyfredol. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn sut i ddychwelyd i ymarfer gwaith cymdeithasol yng Nghymru: canllaw i weithwyr cymdeithasol.

## Beth am weithwyr cymdeithasol sy’n cymhwyso yng ngwledydd eraill y DU?

Dangos

Rydyn ni’n cydnabod cymwysterau ôl-gymhwyso cyfwerth a chymaradwy yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon at ddibenion adnewyddu cofrestriad. Ond efallai y bydd cyfl ogwyr a gweithwyr cymdeithasol yn penderfynu ei bod yn berthnasol ymgymryd â’r Rhaglen Gadarnhau, neu rannau ohoni, er mwyn diwallu anghenion dysgu gweithwyr cymdeithasol sydd wedi cymhwyso yn un o wledydd eraill y DU.

## Sut mae ansawdd y Rhaglen Gadarnhau yn cael ei fonitro?

Dangos

Rydyn ni’n cymeradwyo pob Rhaglen Gadarnhau ac mae’n rhaid iddynt fodloni gofynion cenedlaethol. Byddwn yn parhau i fonitro ac adolygu’r rhaglenni ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fodloni’r gofynion hyn.

## Sut mae gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso yn cael mynediad at y Rhaglen Gadarnhau os yw’n cael ei gyflogi gan awdurdod lleol?

Dangos

Fel arfer, byddai gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso yn siarad â'i reolwr neu oruchwyliwr am y Rhaglen Gadarnhau.

Gallant hefyd gysylltu â thîm datblygu'r gweithlu yn yr awdurdod lleol lle maen nhw’n gweithio.

## Sut mae gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso yn cael mynediad at y rhaglen gyfuno os NAD yw’n cael ei gyflogi

**gan awdurdod lleol?**

Dangos

Bydd angen i rai gweithwyr asiantaeth drerfnu a thalu am y rhaglen gyfuno eu hunain. Gallant ddarganfod mwy gan eu hasiantaeth.

Os yw gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso yn cael ei gyflogi gan sefydliad di-elw neu gwmni preifat, dylen nhw ofyn i'w rheolwr am fynediad i'r rhaglen.

Gallant hefyd gysylltu â thîm datblygu'r gweithlu yn yr awdurdod lleol lle maen nhw'ngweithio i gael gwybodaeth.

Mae'r fframwaith Dysgu ac Addysg Proff esiynol Parhaus yn cael ei werthuso'n annibynnol er mwyn gwneud yn siwr ei fod yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf posibl ar weithwyr cymdeithasol, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd ymarfer, dilyniant gyrfa, datblygiad gyrfa a lefelau cadw gweithwyr cymdeithasol. Bydd y gwerthusiad hefyd yn pwyso a mesur i ba raddau mae'r ff ramwaith wedi helpu i wella canlyniadau i bobl sy'n derbyn gofal a chymorth, eu teuluoedd a/neu eu gofalwyr.

## Sut mae cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau addysg gwaith cymdeithasol eraill yng Nghymru?

Dangos

Gallwch fynd i'n gwefan, sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd.